Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Carco Trelyn**

**Ysgol Gymraeg Trelyn**
**Stryd Masnachol**
**Pengam, Coed-duon**
**Caerffili**
**NP12 3ST**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

25/01/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Carco Trelyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Menter Iaith Sir Caerffili |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Ionawr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.  Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhoi pwyslais cryf ar blant yn rheoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus ac yn edrych ymlaen at fynychu'r cylch meithrin. Mae eu barn a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae gan y plant gyfleoedd cyffrous ac maent yn gwneud nifer o ddewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u ffrindiau a staff, ac yn gwneud cynnydd da ym mhob agwedd ar eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r plant yn derbyn gofal caredig ac ymatebol.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn angerddol am eu rolau ac yn darparu gofal diogel a meithringar. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang a diddorol o weithgareddau, sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, chwarae a dysgu. Mae'r staff yn cadw cofnodion da o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda iawn er mwyn cefnogi chwarae a dysgu’r plant. Mae ystod ardderchog o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r staff. Maent yn annog staff i ddatblygu yn eu rôl a chwblhau hyfforddiant ychwanegol. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol yn eu lle ond mae angen rhoi sylw i'r rhain er mwyn eu diweddaru. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth o'r lleoliad ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

## Llesiant

Mae'r plant yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth neu gefnogaeth os ydynt yn gofyn amdanynt. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod y sesiynau ac mae'r drefn feunyddiol yn gyfarwydd iddynt. Er enghraifft, mae plant yn eistedd i lawr pan fyddant yn rhagweld amser cylch ac maent yn edrych ymlaen ato. Mae hyn yn darparu sicrwydd i'w diwrnod ac yn helpu'r plant i ymgartrefu'n hawdd. Maent yn cael eu hannog i fynegi eu hoffterau a'u barn yn ystod amser cylch, ac yn derbyn cymorth i gymryd rhan a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd ar yr amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant wedi ymgartrefu, maent yn fodlon, ac maent yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â’u hoedran a’u cam datblygu. Mae'r holl blant yn mynychu'r un ysgol sydd ar y safle, ac yn amlwg yn mwynhau'r parhad o gyfarfod eu ffrindiau mewn lleoliad ar wahân. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Roedd un plentyn a oedd wedi blino ac yn gysglyd yn cael sylw agos gan aelod o staff, a arhosodd gyda'r plentyn i roi cysur a chymorth yn ôl yr angen. Mae plant iau yn y gwasanaeth cofleidiol yn dechrau rhannu a mwynhau gweithgareddau gyda'i gilydd. Maent yn siarad am eu gweithgareddau yn rhwydd, ac maent yn hapus i rannu gwybodaeth am eu diddordebau.

Caiff plant gyfleoedd da ar gyfer chwarae dychmygus ac maent yn mwynhau rhannu ystod o weithgareddau chwarae rôl, megis gwneud bwyd a diodydd yn y gornel gartref a defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu. Mae'r plant yn cael ymarfer corff ac awyr iach yn rheolaidd, ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser y maent yn ei dreulio yn chwarae'n egnïol yn yr awyr agored. Maent yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored mewn iard ysgol sydd ag adnoddau da. Mae gweithgareddau chwarae anniben gyda phaent a dŵr yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl. Roedd y plant yn awyddus i ddangos y lluniau y gwnaethant eu lliwio o Mr Urdd i ni.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Mae'r plant yn dod o hyd i'w heiddo eu hunain ac yn clirio ar ôl bwyta. Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio cyfleusterau'r toiledau'n annibynnol, gan ofyn am gymorth os oes angen. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff systemau da ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau diogelu yn drylwyr ac yn hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu rolau a chyfrifoldebau am fod yn wyliadwrus, ac maent yn deall y prosesau i'w dilyn wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mae'r staff yn cadw cofnod o anafiadau presennol y plant ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r archwiliad diogelu. Mae'r ysgol a'r lleoliad yn trefnu ymarferion tân rheolaidd ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn fanwl, ac fe'u gwerthusir gan yr unigolyn â gofal. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau. Rhennir gwybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant gyda'r staff ac mae'n hygyrch iddynt. Rhennir unrhyw newidiadau gan rieni a chaiff cofnodion eu diweddaru.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am egwyddorion gwaith chwarae ac mae eu disgwyliadau o blant yn realistig ac yn cael eu llywio gan anghenion unigol. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion yn ymwneud ag ymddygiad. Mae staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn ystod gweithgareddau, ac yn sgwrsio â nhw. Mae hyn yn datblygu ymddiriedaeth a chydberthnasau, ac yn hybu hunanhyder y plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae'r staff yn hyrwyddo trafodaeth agored ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad plant mewn penderfyniadau am sut mae'r clwb yn cael ei redeg.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol ac yn hwyluso amrywiaeth dda o weithgareddau adloniant a hamdden. Mae'r staff yn defnyddio arsylwadau i olrhain cynnydd plant sy'n mynychu'r gwasanaeth cofleidiol ac yn cynllunio gweithgareddau i gyflawni canlyniadau penodol. Nid yw'r staff yn cadw cofnodion rheolaidd o safbwyntiau a hoffterau'r plant. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod gan y plant rôl wrth bennu cynnwys eu chwarae trwy ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd, cyflawniadau a datblygiadau eu plentyn. Defnyddir y Gymraeg trwy gydol y sesiynau gan yr holl staff ac mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad wedi ei leoli mewn dosbarth dros dro ar fuarth Ysgol Gymraeg Trelyn. Mae'r holl gyfleusterau'n groesawgar ac yn hygyrch ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau cofrestr o'r plant sy'n mynychu, ac yn ystod yr arolygiad dechreuwyd ar y broses o gofnodi'r union amserau y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael. Maent yn monitro mewngofnodi ac allgofnodi o'r gwasanaeth, ac yn sicrhau y cynhelir neu y rhagorir cymarebau staff ar bob adeg.Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad, sy'n cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a holl weithgareddau'r plant. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd gan yr unigolyn â gofal ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau dyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad, ond nid oedd hawl gan ymwelwyr i fynd i mewn i'r adeilad yn ystod y pandemig COVID-19 oni bai fod hyn yn hanfodol. Mae awdurdodau'r ysgol yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw a gwasanaethu cyfleustodau ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol yn glanhau'r adeilad yn drylwyr bob dydd. Mae staff sy'n gweithio yn y lleoliad yn cyflawni dyletswyddau glanweithdra a glanhau yn ôl yr angen trwy gydol y sesiynau. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau a llachar i blant eu harchwilio. Mae ystod dda o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu cyrchu'r holl offer yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth.  Mae offer ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a darganfyddiad. Mae'r toiledau yn hawdd i'r plant eu cyrraedd, ac maent yn lân ac yn ffres. Mae giât yn y gegin, er mwyn atal plant rhag mynd i mewn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r ardal hon wedi'i ffensio ac nid yw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn cael gadael yr iard heb oruchwyliaeth. Mae'r ardal yn ddeniadol ac yn cynnig cyfleoedd da iawn i blant chwarae'n egnïol. Mae nifer o gynwysyddion mawr gyda phlanhigion a bylbiau'r gwanwyn wedi'u plannu gan y plant, sy'n edrych ymlaen at weld y blodau'n tyfu. Mae gan yr ardal allanol adnoddau da iawn. Roedd y plant yn awyddus iawn i reidio'r beiciau a'r ceir ar yr iard, yn ogystal â defnyddio'r offer dringo. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n dda pan fyddant yn chwarae y tu allan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac yn bennaf yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad ac mae'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r lleoliad ac yn rhoi cymorth da i'r unigolyn â gofal a'i thîm i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n dda bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i hyrwyddo arferion diogel ac yn gosod nodau clir i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi pobl sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol ac mae rhai unigolion yn aelodau o staff ers tro. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o barhad i blant. Mae gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae'r holl wybodaeth ofynnol i ddangos addasrwydd staff yn ei lle. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser. Mae'r polisïau a gweithdrefnau gofynnol yn eu lle, ac mae angen adolygu a diweddaru nifer ohonynt. Dechreuodd yr unigolyn cyfrifol y broses hon yn ystod yr arolygiad. Mae'r holl staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol gyda'r unigolyn â gofal. Mae'r broses hon yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol ac yn rhoi cyfle i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio. Mae hyn yn rhan o'r adroddiad ansawdd gofal blynyddol. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw yn ddi-oed. Mae trefn gwyno yn ei lle, er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae partneriaethau gyda rhieni yn agos a dywedodd rhieni wrthym eu bod yn hapus ag ansawdd y gwasanaeth a'u bod yn hyderus i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Mae perthynas dda iawn gyda'r ysgol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r lleoliad.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gan gynnwys dyddiad unrhyw newidiadau.

A2 Dylid gwneud cofnodion ffurfiol o farn a hoffterau plant.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/02/2022